


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))

Swyddi Gwag

Cofiwch nodi'r swyddi gwag yn eich Practis ar WNWRS. Bydd hyn yn ein helpu ni a'n rhanddeiliaid i ddeall y swyddi gwag sydd ar gael ledled Cymru a bydd yn ein helpu ni i'ch cefnogi chi i'w llenwi.

A ydych eisiau cymorth?

Byddai PCGC yn fodlon mynychu unrhyw gyfarfodydd Rheolwyr Practisiau/Clwstwr neu drefnu sesiwn Teams i ateb unrhyw ymholiadau am System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu neu LHW – anfonwch e-bost at nwssp.primarycarewnwrs@wales.nhs.uk i ofyn am ein cymorth!



Ffocws ar: Rhagnodwyr cymdeithasol

A allai pob Practis gofnodi data sydd ganddo am staff sy'n cyflawni rôl y Rhagnodydd Cymdeithasol yn eich Practis. Rhagnodi cymdeithasol yw pan fydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn cyfeirio cleifion at gymorth yn y gymuned, er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant.

CAMAU I'W CYMRYD: Nodwch yr holl Staff sy'n cyflawni rôl y Rhagnodydd Cymdeithasol yn eich Practis yn WNWRS, hyd yn oed os nad ydynt wedi'u cyflogi yn uniongyrchol gan eich Practis. Crëwch gofnod staff llawn iddynt, gan ddewis 'Gofal Cleifion Uniongyrchol' a 'Gweithiwr Cyswllt Rhagnodi Cymdeithasol', wedyn y math o gontract perthnasol ('anrhyddedus' os nad yw'r staff wedi'u cyflogi gan y Practis) a'r oriau maent yn eu gweithio yn eich Practis. Os yw eu horiau yn amrywio, nodwch nifer yr oriau wythnosol ar gyfartaledd dros y 3 mis diwethaf. Os oes gennych rywun sy'n cyflawni'r rôl hon ond sydd hefyd yn cyflawni rôl wahanol yn eich Practis, crëwch gofnod staff gwahanol ar gyfer pob rôl, gan rannu ei oriau gwaith/dan gontract yn unol â hynny.

Diweddariad Locum Hub Wales

Mae'r swyddogaeth newydd bellach yn fyw yn Locum Hub Wales, gan alluogi Practisiau a Gweithwyr Locwm i nodi nifer o sifftiau yn gyflym trwy swyddogaeth golwg calendr. Mae adborth ar hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac fe'i croesawyd gan Bractisiau a Gweithwyr Locwm.

Os nad ydych wedi mewngofnodi i Locum Hub Wales am gryn amser, mewngofnodwch/cofrestrwch nawr i weld sut y gall eich helpu chi a'ch Practis.

I gadarnhau, er mwyn i'ch Practis gael ei yswirio gan yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) pan fydd yn defnyddio Gweithwyr Locwm, rhaid i'r Meddyg Teulu Locwm:

- 1) *Gael ei gynnwys/chynnwys ar Restr Cyflawnwyr Meddygol Cymru (MPL)*
- 2) *Gael ei gynnwys/chynnwys ar y Gofrestr Meddygon Locwm i Gymru Gyfan (AWLR)*
- 3) *Gofnodi ei sifftiau yn Locum Hub Wales (LHW)*

yn unol ag Atodiad B o'r Canllawiau ar y Cynllun GMPI, dolen [yma](#). Dylid cyfeirio ymholiadau penodol am indemniad at y tîm GMPI ar GMPI@wales.nhs.uk

Ymdrinnir â threfniadau indemniad ar gyfer y rhai â statws Meddygon Teulu Locwm ar yr MPL yn wahanol i staff parhaol, sy'n derbyn mynediad at y GMPI trwy eu cofnodion ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS). **NI fydd cofnodi eich manylion Locwm ar WNWRS yn unig yn rhoi'r hawl awtomatig iddynt dderbyn GMPI os codir pryder.**

Dylai Rheolwyr Practis gysoni eu cofnodion mewn modd amserol yn erbyn y rhai sydd wedi'u cofnodi gan y Meddyg Teulu Locwm yn LHW i sicrhau bod eu Practis wedi'i ddiogelu. **Os nad yw Meddyg Teulu Locwm wedi nodi ei sifft yn LHW, cysylltwch ag ef/hi ar unwaith a gofynnwch iddo/iddi wneud hynny, fel nad yw eich Practis mewn perygl.**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am swyddogaeth Locum Hub Wales, gweler y ddolen [yma](#) i'w tudalennau cymorth, neu gallwch gysylltu â nhw yn uniongyrchol ar:

support@gpwales.co.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Ffôn: 07815 993148
E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk

